# Adolygiad o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin

Adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen -
Y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

# C Y N N W Y S


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Rhagair gan y Cadeirydd** | | 3 |
| **Aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen** | | 4 |
| **Cydnabyddiaethau** | | 5 |
| **1.0** | **Y CYD-DESTUN A'R CEFNDIR** | **6** |
| 1.1 | Diben | 6 |
| 1.2 | Cwmpas | 6 |
| 2.0 | **METHODOLEG A PHROSES** | **7** |
| 2.1 | Methodoleg | 7 |
| 2.2 | Y Broses | 8 |
| 3.0 | **DEDDFWRIAETH A PHOLISÏAU** | **9** |
| 4.0 | **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL** | **10** |
| 4.1 | Ymagwedd Strategol | 10 |
| 4.2 | Systemau Data a Chofnodi | 12 |
| 4.3 | Addysg, Atal a Chyfathrebu | 13 |
| 4.4 | Trefniadau Rheoli | 14 |
| 4.5 | Dull Gorfodi | 15 |
| 4.6 | Rhanddeiliaid Allweddol, Ymgynghorwyr Arbenigol a Thystion | 18 |
| **5.0** | **CASGLIADAU** | **19** |
| **6.0** | **YR ARGYMHELLION** | **20** |
| **7.0** | **ATODIADAU** | **22** |
| **8.0** | **GEIRFA** | **22** |

## RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD



Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a nodwyd i ddechrau gan Bwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ac yn dilyn gohirio a'r etholiad cyffredinol comisiynwyd adolygiad gan y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd, a enwir yn ddiweddar, i reoli tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin, gan ystyried yr effaith negyddol y mae'n ei chael ar ein cymunedau a'n hamgylchedd.

Mae'r gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn hyll ac yn beryglus ac mae'n denu pryfed a fermin, gan greu'r posibilrwydd o ledaenu clefydau. Mae'r effaith negyddol ar ein hamgylchedd, bywyd gwyllt, bioamrywiaeth a phobl yn enfawr, gan fod llawer o ddeunyddiau gwastraff yn beryglus ac nid ydynt yn fioddiraddadwy. Hefyd, mae tipio anghyfreithlon yn tanseilio busnesau gwastraff cyfreithlon lle mae gweithredwyr anghyfreithlon yn cynnig gwasanaethau am brisiau llai na'r rheiny yn Sir Gaerfyrddin sy'n gweithredu o fewn y gyfraith.

Mae'r adolygiad hwn wedi rhoi cyfle i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn ystyried materion a thystiolaeth yn fanylach drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid sylweddol. O bwysigrwydd arbennig mae wedi rhoi cyfle i'r Grŵp ddysgu rhagor am y ddeddfwriaeth a'r polisïau sy'n effeithio ar y cyngor megis diogelwch, yr amgylchedd, contractwyr, cyfrifoldebau perchennog tir a goblygiadau ariannol.

Mae tipio anghyfreithlon yn anharddu ein hamgylchedd a'n cymunedau yn ddiangen. Mae ffyrdd syml o reoli gwastraff domestig a masnach mewn modd syml, diogelu sy'n cydymffurfio. Drwy ymgysylltu â chwmni rheoli gwastraff cydnabyddedig, gall trigolion fod yn sicr y bydd eu gwastraff yn cael ei drin yn gyfrifol. Dyma un o'r negeseuon allweddol y mae'r adroddiad hwn am eu trosglwyddo i drigolion Sir Gaerfyrddin.

Hoffwn ddiolch i'r holl sefydliadau ac unigolion a gymerodd ran yn y grŵp. Rhoddodd eu hamser a'u hymrwymiad gipolwg amhrisiadwy i ni ar faterion lleol o ran tipio anghyfreithlon a'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ac i'r hyn y gellir ei wneud. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Aled Vaughan-Owen, holl Swyddogion y Cyngor a'r Cynghorwyr a gymerodd ran yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn

**Y Cynghorydd John James**
**Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd**

## Aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Yn dilyn gohirio'r adolygiad, bu'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd, yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2022, yn ystyried dogfen Cynllunio a Chwmpasu ddiwygiedig ar adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd y ddogfen ei derbyn yn unfrydol gan y Pwyllgor a chomisiynodd grŵp gorchwyl a gorffen yn swyddogol i ymgymryd ag adolygiad wedi'i ffocysu a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2022 oedd yn cynnwys yr aelodaeth drawsbleidiol ddilynol:-

| | | |
|---|---|---|
| <br>**Y Cynghorydd Sue Allen**<br>Hendy-gwyn ar Daf<br>Annibynnol | <br>**Y Cynghorydd Arwel Davies**<br>Cil-y-cwm<br>Plaid Cymru | <br>**Y Cynghorydd Shelly Godfrey-Coles**<br>Porth Tywyn<br>Llafur Cymru |
| | | |
| <br>**Y Cynghorydd John James (Cadeirydd)**<br>Porth Tywyn<br>Llafur Cymru | <br>**Y Cynghorydd Neil Lewis**<br>Abergwili<br>Plaid Cymru | <br>**Y Cynghorydd Dorian Phillips**<br>Llanboidy<br>Plaid Cymru |

## Cydnabyddiaethau:

Hoffai aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddiolch yn ddiffuant i bawb a gymerodd ran yn yr Adolygiad:

**Ymgynghorwyr arbenigol mewnol o Adran Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Caerfyrddin:**

- Jonathan Morgan (Pennaeth Tai)
- Daniel John (Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff)
- Sue Watts (Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd)
- Robert Williams (Arweinydd Iechyd y Cyhoedd)
- Steven Raymond (Swyddog Gorfodi Materion Amgylcheddol)
- Michael Roberts (Swyddog Polisi Ansawdd yr Amgylchedd Lleol)
- Jonathan Willis (Rheolwr Prosiectau Amgylcheddol)

Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio  a Chynaliadwyedd –y Cynghorydd Aled Vaughan-Owen

**Partneriaid:**

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Heddlu Dyfed-Powys
Undeb Amaethwyr Cymru

**Cymorth Adolygiad Craffu:**

Janine Owen – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 1.0 CYD-DESTUN A CHEFNDIR

Yn ei sesiwn anffurfiol Datblygu'r Flaengynllun Waith a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2021, bu'r Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ystyried awgrym gan Gyngor Cymuned sef bod y Pwyllgor yn ystyried materion yn ymwneud â thipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin.

Cydnabu Aelodau'r Pwyllgor fod tipio anghyfreithlon yn broblem gynyddol drwy gydol Sir Gaerfyrddin a'i fod yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd a chymunedau.

Yn dilyn cytundeb anffurfiol, bu'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2021, yn ystyried Dogfen Cynllunio a Chwmpasu ar adolygiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Derbyniwyd y ddogfen yn unfrydol gan y Pwyllgor a chomisiynwyd grŵp gorchwyl a gorffen yn swyddogol i ymgymryd ag adolygiad penodol a ddechreuwyd ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, yn dilyn diweddariad gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd yn y cyfarfod cyntaf, cytunodd y Grŵp yn unfrydol i ohirio'r adolygiad o dipio anghyfreithlon hyd at 2022, yn dilyn proses yr etholiad. O ganlyniad, yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2021 cafodd a nododd y Pwyllgor adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn amlinellu'r rhesymau dros ohirio'r adolygiad.

Cymeradwywyd Dogfen Cynllunio a Chwmpasu ddiwygiedig ar 24 Tachwedd 2022 a lluniwyd grŵp o 6 aelod sy'n gytbwys yn wleidyddol.

Cynhaliodd y Grŵp, yn unol â'r ddogfen gwmpasu a chynllunio, adolygiad penodol drwy archwilio'r polisïau perthnasol, y broses reoli gyfredol ac ystyried sut i wella arnynt er mwyn helpu i leihau tipio anghyfreithlon wrth ddefnyddio adnoddau'n effeithiol.

### 1.1 DIBEN

Comisiynwyd grŵp adolygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd i adolygu'r gwaith o reoli tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Drwy ymchwilio a chasglu gwybodaeth, gofynnwyd i'r grŵp archwilio'r meysydd posibl i'w gwella a nodi argymhellion i'r Cabinet eu hystyried.

### 1.2 CWMPAS

Lluniwyd cwmpas ac amcanion yr adolygiad i ystyried a gwerthuso'r prosesau mewnol, materion gweithredol a'r trefniadau partneriaeth presennol o dipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus a phreifat ac archwilio gwelliannau i helpu i leihau Tipio Anghyfreithlon, gan sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r pwnc ar gyfer adolygiad yn cyd-fynd â Gweledigaeth y Cyngor; 'Mae bywyd ar gyfer byw, gadewch i ni ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus' gan gyfrannu at yr amcanion sy'n cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Cynhaliodd y Grŵp adolygiad i:

- Adolygu'r rhesymau y tu ôl i dipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin;
- Nodi ac adolygu ardaloedd eraill yn y DU lle bu newidiadau llwyddiannus i bolisïau a gweithdrefnau a fydd wedyn yn cael effaith gadarnhaol ar Dipio Anghyfreithlon;
- Ymchwilio i arfer gorau gan awdurdodau lleol eraill ledled y wlad mewn perthynas â chasglu a thrin Tipio Anghyfreithlon;
- Ymchwilio i arfer gorau gan awdurdodau lleol eraill o ran Addysg Tipio Anghyfreithlon, Casglu Gwybodaeth, Gwyliadwriaeth, Gorfodi a Thechnegau Erlyn;
- Archwilio sut mae gwybodaeth rhwng adrannau ac asiantaethau eraill yn cael ei rhannu ar hyn o bryd; ac
- Adolygu prosesau mewnol cyfredol a materion rheoli gweithredol tipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus a phreifat yn Sir Gaerfyrddin.

## 2.0 METHODOLEG A PHROSES

### 2.1 METHODOLEG

Drwy gyfres o gyfarfodydd, casglodd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wybodaeth am y materion mewn perthynas â thipio anghyfreithlon ar dir preifat a chyhoeddus. Fel rhan o'r broses ac i sicrhau bod canfyddiadau ac argymhellion clir nodwyd y meysydd canlynol fel meysydd ffocws:

- Y dull strategol;
- Y dull cyfredol o ymdrin â systemau data a chofnodi;
- Ymagwedd at addysg ac atal;
- Trefniadau rheoli a chydweithio;
- Dull gorfodi; a
- Chyfathrebu a chyhoeddusrwydd.

Cefnogwyd y trafodaethau uchod gan asiantaethau partner ac asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd, tirfeddianwyr a chymunedau.

Roedd y fethodoleg yn ymgorffori technegau amrywiol a oedd yn cynnwys cymysgedd o ddulliau ansoddol a meintiol, gan ystyried y data a dderbyniwyd gan adran yr Amgylchedd ac adran Cymunedau'r Cyngor a thrafodaethau wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid allweddol.

Cwblhawyd yr adolygiad mewn chwe chyfarfod rhwng Rhagfyr 2022 ac Ebrill 2023.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys:

- Ymarferion bwrdd gwaith – cyflwyniadau gan swyddogion allweddol
- Cyfweld â rhanddeiliaid allweddol – Gorfodaeth a Thystion;
- Gwybodaeth leol a gafwyd gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen;
- Data a thystiolaeth a ddarparwyd gan Swyddogion o adran yr Amgylchedd a'r adran Cymunedau;
- Tystiolaeth a ddarparwyd gan gyflwyniad o'r ymgyrch 'Cadwch Brydain yn Daclus; a
- Gwybodaeth ariannol sy'n gysylltiedig â chost delio â tipio anghyfreithlon;

## 2.2 Y BROSES

Yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2022, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd y nodau yn ffurfiol o fewn y ddogfen gwmpasu a chynllunio ar gyfer yr adolygiad. Comisiynwyd aelodaeth grŵp Gorchwyl a Gorffen trawsbleidiol i ddechrau ym mis Rhagfyr 2022 gyda'r bwriad o gynnal adolygiad penodol i'w gwblhau ym mlwyddyn 22/23 y Cyngor.

Nodir amserlen y digwyddiadau sy'n arwain at lunio'r adroddiad hwn isod:

| Dyddiad y Cyfarfod | | Cynllun |
|---|---|---|
| 1 | **Dydd Mercher, 8 Rhagfyr 2022** | ➢ Ymchwil Bwrdd Gwaith - cyflwyniad swyddogion allweddol<br>➢ O ystyried y wybodaeth uchod, adolygodd y grŵp y nodau, y cynllun prosiect a'r dull gweithredu cyffredinol a chytunodd arnynt |
| 2 | **Dydd Iau, 26 Ionawr 2023** | • Adolygu'r broses bresennol o reoli tipio anghyfreithlon, nodi newidiadau i bolisïau/gwelliannau mewnol<br>• Strategaethau addysg, atal ac ymyrryd (hyrwyddo newid ymddygiad ac atgyfnerthu cadarnhaol) |
| 3 | **Dydd Mawrth 7 Chwefror 2023** | Sesiwn holi ac ateb gyda rhanddeiliaid allweddol |
| 4 | **Dydd Llun, 14 Chwefror 2023** | • Adolygwyd y wybodaeth a dderbyniwyd gan dystion (7/2)<br>• Adolygwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol rhwng yr Awdurdod Lleol ac Asiantaethau partner |

| Dyddiad y Cyfarfod | | Cynllun |
|---|---|---|
| 5 | **Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023** | Trafodaeth gyda'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd<br><br>Trafodaeth grŵp ar gasgliadau ac argymhellion posibl |
| 6 | **Dydd Iau, 23 Mawrth 2023** | Cytunwyd i ohirio cyflwyno'r adroddiad hyd at gyfarfod y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar 30 Mehefin i ganiatáu mwy o amser i gwblhau'r adroddiad. |
| 7 | **Dydd Mercher, 3 Mai 2023** | Adolygu argymhellion yr adroddiad. |
| 8 | **Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2023** | Trafod cynnwys adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. |
| 9 | **Dydd Llun, 10 Gorffennaf 2023** | Costiodd y Grŵp yr argymhellion a chwblhau'r adroddiad. |
| | **Dydd Gwener, 21 Gorffennaf 2023** | Cyflwyno adroddiad terfynol gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd |

## 3.0 DEDDFWRIAETH A PHOLISÏAU

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- Protocol tipio anghyfreithlon (Cymru);
- Cynllun Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru;
- Strategaeth Gorfforaethol 2021-2023 (yn ymgorffori Amcanion Llesiant yn benodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin);
- Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2016-2021 (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd); a
- Chôd Ymarfer - Sbwriel a Gwastraff.
- Polisi Gorfodi Cyffredinol

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac Amcanion Llesiant Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin**

Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fod materion a chanlyniadau tipio anghyfreithlon hefyd yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant penodol canlynol.

- **Byw'n Dda**
  - **Amcan Llesiant 8**
    Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)
  - **Amcan Llesiant 9**
    Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

- **Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus**
  - **Amcan Llesiant 12**
    Gofalu am yr amgylchedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol
  - **Amcan Llesiant 15**
    Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

## 4.0 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Bu'r grŵp yn ystyried gwybodaeth sydd wedi'i chrynhoi isod, yn unol â'r meysydd ffocws penodol a nodwyd yn ystod y broses adolygu.

Tipio anghyfreithlon yw'r term cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio gwastraff sy'n cael ei adael yn anghyfreithlon ar dir. Mae'r drosedd o dipio anghyfreithlon a'r troseddau ychwanegol o ganiatáu tipio anghyfreithlon yn fwriadol wedi'u nodi yn Adran 33 (1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gall y gwastraff fod yn solet neu'n hylif a gall amrywio ar raddfa o faint bag bin o sbwriel i dipio gwastraff gwaith adeiladu ar raddfa fawr.

Mae yna hefyd drosedd gysylltiedig sy'n ymwneud â gollwng gwastraff yn anghyfreithlon o gerbyd modur, lle bydd y person sy'n rheoli'r cerbyd neu sydd mewn sefyllfa i reoli'r cerbyd yn cael ei drin fel pe bai'n achosi i'r gwastraff gael ei adael yn fwriadol.

Mae tipio anghyfreithlon yn fater cenedlaethol, wedi'i waethygu gan nifer o ffactorau gwahanol.

- Bydd nifer a math yr achosion o dipio anghyfreithlon yn amrywio yn dymhorol. Mae nifer yr achosion o dipio gwastraff gardd yn anghyfreithlon yn cynyddu yn ystod yr haf.
- Mae cydberthynas uniongyrchol rhwng nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a chyflwr yr economi.
- Mae ffactorau eraill sy'n cael dylanwad yn cynnwys gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol, poblogaethau byrhoedlog a landlordiaid absennol.

### 4.1 Ymagwedd Strategol

#### 4.1.1 Y Sefyllfa Bresennol

Mae nifer uchel o achosion tipio gwastraff yn anghyfreithlon yn difetha cymunedau yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwastraff yn fygythiad i'r amgylchedd sy'n difetha mwynhad trefi a phentrefi.  Mae'n un o'r mathau mwyaf cyffredin o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n drosedd.

Gellir diffinio tipio anghyfreithlon fel:

- Bagiau du (bagiau o sbwriel) – wedi'u tipio'n anghyfreithlon gan breswylwyr ac yn gysylltiedig â chyflwyno gwastraff:
- Tipio gwastraff masnachol yn anghyfreithlon:
- Tipio anghyfreithlon gan boblogaethau byrhoedlog:
- Tipio anghyfreithlon cyffredinol gan breswylwyr (gwastraff swmpus); a
- Chamddefnyddio safleoedd casglu a biniau sbwriel.

Fel rhan o'r amcanion llesiant corfforaethol un ffocws oedd galluogi cymunedau a'r amgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus).

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli achosion o dipio anghyfreithlon drwy'r dulliau canlynol:-

- **<u>Tir Cyhoeddus</u>**
  **Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff**, Adran yr Amgylchedd

- **<u>Tir Preifat</u>**
  **Yr Adain Diogelu'r Amgylchedd**, yr Adran Cymunedau

- **<u>Safleoedd Gwastraff Anghyfreithlon</u>**
  **Adran Cynllunio Mwynau a Gwastraff,** Adran Lle a Seilwaith (gwastraff adeiladu a dymchwel)

### 4.1.2 Canfyddiadau

Canfuwyd bod Gwasanaeth Glanhau'r Cyngor yn clirio tipio anghyfreithlon y rhoddir gwybod amdano o fewn y targed o bedwar diwrnod ar bron bob achlysur; Y broblem oedd bod achosion yn digwydd eto yr un mor gyflym ag yr oedden nhw'n cael eu clirio. Roedd hyn yn dangos bod angen datblygu dull strategol, a oedd yn canolbwyntio ar atal a lleihau nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon.

Nodwyd y rhesymau y tu ôl i dipio anghyfreithlon fel a ganlyn:-

- Elfen droseddol/budd ariannol
- Diffyg gwybodaeth/addysgu perchnogion, meddianwyr, landlordiaid ac ati
- Rhesymau economaidd-gymdeithasol/ardaloedd amddifad
- Polisïau Awdurdodau Lleol ar waredu gwastraff yn dilyn Polisïau a Thargedau Llywodraeth Cymru
- COVID a mynediad at wasanaethau
- Mynediad i wasanaethau/seilwaith – Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref / Gwasanaeth Gwastraff Swmpus
- Mae'n gyfleus

### 4.1.3 Sylwadau

Ar hyn o bryd nid oes dull strategol clir ar gyfer tipio anghyfreithlon ac mae'r gwasanaethau'n gweithredu dull ymatebol o ran clirio, gorfodi ac atal.


**Datblygu strategaeth glir i lywio ein meddylfryd yn y dyfodol ynghylch tipio anghyfreithlon.**

Byddai angen i strategaeth ddatblygu gweledigaeth a chamau gweithredu cysylltiedig o amgylch sawl thema allweddol: addysg; codi ymwybyddiaeth; gweithio mewn partneriaeth; a gorfodi. Gweithio ar y cyd â phreswylwyr, busnesau, cymdeithasau tai, landlordiaid a'n partneriaid. Gyda data yn sail i'n ffocws ar fannau problemus a sicrhau ein bod yn addysgu yn ogystal â gorfodi.

## 4.2 Systemau Data a Chofnodi

### 4.2.1 Y Sefyllfa Bresennol

Achosion o dipio anghyfreithlon




Mae'r wybodaeth isod, yn tynnu sylw at yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a'r achos llys am y cyfnod 01/04/2021 i 31/03/22 a 01/04/2022 i 01/12/2022. Mae hysbysiadau cosb benodedig am sbwriel yn cael eu rhoi ar gyda achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon ar raddfa fach e.e: blwch cardbord, bag du.

| | **Cyfnod adrodd 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022*** | **Cyfnod adrodd 1 Ebrill tan 20 Mawrth 2023** |
|---|---|---|
| Sbwriel | 62 | 114 |
| Tipio Anghyfreithlon | 11 | 33 |

*Mae'r cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 yn cyd-fynd â lleihau'r cyfyngiadau symud.

**Trafodion llys o 1 Ebrill 2022 hyd heddiw.**

| | **Erlyn** | **Disgwyl erlyniadau** |
|---|---|---|
| Sbwriel | 2 | 1 |
| Tipio anghyfreithlon | 12 | 5 |

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor sawl ffordd o gasglu a chofnodi data tipio anghyfreithlon gan ddefnyddio'r systemau canlynol (gweler adran 7.0 am fanylion pob system):

- Flymapper
- System TASK
- System APP
- Firmstep
- Fix my street
- Adrodd mewnol drwy broses ymholi Aelodau.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfuno/asesu o'r data a gofnodir ar draws y systemau adrodd/cofnodi lluosog hyn ar lefel leol a chenedlaethol. Mae hyn yn arwain at ddull anghyson o gofnodi ac yn arwain at ddyblygu achosion yn cael eu cofnodi yn y ffigurau a adroddwyd yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur yr union ffigur dyblygu.

#### 4.2.2 Canfyddiadau

Y system adrodd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw Fly-mapper, ond nid oes gan y system hon swyddogaeth i weithredu fel offeryn rheoli gwaith. Mae'r system APP yn cofnodi cwynion gwasanaeth o dipio anghyfreithlon, gan anfon gwybodaeth at y tîm perthnasol a thrwy hynny roi data mwy cywir. Fodd bynnag, nid oes gan y system hon y gallu i olrhain a nodi tueddiadau neu leoliadau mannau problemus. Defnyddir TASK hefyd i gofnodi ceisiadau'r cyhoedd ac aelodau drwy systemau adrodd a gwefannau'r Gwasanaethau Democrataidd.
Gan fod dulliau lluosog o adrodd a chofnodi yn cael eu defnyddio, canfuwyd bod un achos o dipio anghyfreithlon yn cael ei gofnodi a'i adrodd sawl gwaith.

Yn ogystal, ar hyn o bryd roedd diffyg eglurder o'r hyn sy'n gyfystyr â 'thipio anghyfreithlon', gyda chwynion am sbwriel, sbwriel sydd heb ei gasglu, croniad o wastraff mewn gerddi a bagiau (â sticer) a oedd wedi bod allan i'w gasglu dros ddyddiau. Roedd y rhain yn sampl o gwynion a gofnodwyd fel 'tipio anghyfreithlon' gan achosi cynnydd yn y ffigurau tipio anghyfreithlon a gofnodwyd.

#### 4.2.3 Sylwadau

Mae angen diffiniad clir o dipio anghyfreithlon i roi eglurder o adrodd a chofnodi a gefnogir gan un system gofnodi er mwyn osgoi dyblygu a chofnodion gwallus. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i adrodd yn gywir ar lefelau tipio anghyfreithlon a datblygu dull strategol wedi'i dargedu.

### 4.3 Addysg, Atal a Chyfathrebu

#### 4.3.1 Y Sefyllfa Bresennol

Cymeradwyodd aelodau'r Cyngor gynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol 2022-2026 a oedd yn manylu ar agweddau ar addysg ac atal mewn perthynas â thipio anghyfreithlon.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn ymwneud yn helaeth â Caru Cymru sy'n brosiect cydweithio rhwng 24 o bartneriaid sy'n ceisio mynd i'r afael â materion Ansawdd Amgylcheddol Lleol ledled Cymru. Mae'r prosiect hwn yn ymgysylltu â phobl a chymunedau i ddatblygu atebion i wella'r amgylchedd i bobl a bywyd gwyllt, gan gyfuno arbenigedd Ansawdd yr Amgylchedd Lleol, ymgymryd ag ymchwil, ymgyrchoedd newid ymddygiad wedi'u targedu, ac anelu at atal sbwriel o'r ffynhonnell a chefnogi glanhau cymunedol.

#### 4.3.2 Canfyddiadau

Er bod gwaith wedi'i gyflawni ar Ansawdd yr Amgylchedd Lleol a oedd yn cwmpasu tipio anghyfreithlon yn rhannol, o ystyried maint y mater yn Sir Gaerfyrddin, roedd angen mwy o bwyslais ar dipio anghyfreithlon yn ogystal â datblygu dull addysg ac atal annibynnol sy'n cyd-fynd ag amcanion lleihau ac atal.

Datgelodd ymchwil fod awdurdodau cyfagos wedi defnyddio'r 'ddamcaniaeth perswâd' a oedd wedi profi'n llwyddiannus drwy atgoffa pobl yn effeithiol ei bod yn bosibl bod rhywun yn eu gwylio a bod tipio anghyfreithlon yn drosedd.

Ar hyn o bryd, nid oes dull annibynnol ar gyfer tipio anghyfreithlon ar gyfer Cyfathrebu, Cyhoeddusrwydd ac Ymgysylltu gan fod hyn yn cael ei wneud drwy'r sianeli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol.




#### 4.3.3 Sylwadau

Roedd Aelodau'r Grŵp yn awyddus i sicrhau nad oedd cyfleoedd yn cael eu colli o ran addysgu'r cyhoedd am y niwed y mae tipio anghyfreithlon yn ei wneud i'r amgylchedd, gan ddarparu arweiniad a gwybodaeth gefnogol i ddioddefwyr tipio anghyfreithlon. Roedd yr Aelodau'n awyddus i'r Cyngor wella'r meysydd canlynol:

- Presenoldeb gwell mewn sioeau lleol
- Ceisiadau am bresenoldeb
- Rhaglen addysg ysgolion
- Cyfathrebu gweithgarwch gorfodi a throseddwyr

### 4.4 Trefniadau rheoli

#### 4.4.1 Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Tîm Gorfodi Materion Amgylcheddol yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau amgylcheddol a gyflawnir ar "dir cyhoeddus". Mae'r tîm o swyddogion wedi cael pwerau deddfwriaethol i ymateb i achosion fel Tipio Anghyfreithlon. Nid oes gan y tîm unrhyw gyfrifoldeb i glirio a gwaredu tipio anghyfreithlon o dir cyhoeddus ac mae'r gwasanaeth glanhau yn ymgymryd â'r ddyletswydd hon. Mae'r Tîm Gorfodi, pan fydd yn llawn, yn cynnwys un rheolwr llinell ac wyth Swyddog Gorfodi Materion Amgylcheddol. Rhennir y Sir yn bedair ardal, ac mae dau Swyddog yn gweithredu ym mhob ardal.

Mae Tîm Iechyd y Cyhoedd yn Adran Diogelu'r Amgylchedd yn gyfrifol am ymchwilio a gorfodi tipio anghyfreithlon ar dir preifat. Mae tipio anghyfreithlon yn wastraff anstatudol (lle nad yw'n fater iechyd cyhoeddus). Mae'r Tîm yn cynnwys pedwar swyddog, pob un â'i ardal ei hun.

Mae'r ddau dîm yn ymgysylltu â'i gilydd ar faterion ac yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol eraill ac mae ganddynt berthnasoedd cryf â phartneriaid allweddol.

#### 4.4.2 Canfyddiadau

Ar hyn o bryd, mae'r dull mewnol dau dîm yn aml yn arwain at ddyblygu ymdrechion a hefyd camddealltwriaeth o ran cwmpas a chyfrifoldeb pob tîm. Mae'r cyhoedd a'r Aelodau eisiau datrysiad buan i dipio anghyfreithlon a gallai dull gwahanu effeithio ar amseroldeb o ran rheoli achosion o dipio anghyfreithlon.

Er bod perthnasoedd gwaith da gyda sefydliadau partner, mae hyn yn aml yn cael ei wneud ar sail ymatebol ac o ganlyniad i ddigwyddiad. Gallai grŵp amlasiantaeth strategol wedi'i ffurfioli wella trefniadau gweithio a datblygu gwell dealltwriaeth o'r rhesymau y tu ôl i dipio anghyfreithlon, mannau problemus a throseddwyr.

Roedd gwaith y ddwy adran yn codi pryder o ran diffyg gwybodaeth am y gwaith yr oedd pob adran yn ei wneud. Er bod y dull o ddelio â phob achos yr adroddwyd amdano yn cael ei reoli, roedd lefel y dyblygu a oedd ac a allai ddigwydd o bosibl yn peri pryder. Teimlwyd y gallai'r cysylltiad rhwng yr adrannau gael ei symleiddio a'i gryfhau'n well trwy ddull un tîm. Mae'r broses bresennol i ddelio ag achosion o dipio anghyfreithlon ar dir preifat wedi'i lleoli yn Atodiad A a'r broses ar gyfer tir cyhoeddus yn Atodiad B.

#### 4.4.3 Sylwadau

Roedd aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen wrth ystyried y trefniadau rheoli yn teimlo y gallai fod budd o archwilio'r canlynol er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion a gwella effeithlonrwydd:

**Dull Gweithredu Un Tîm:** Un tîm sy'n gyfrifol am dipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus ac ar dir preifat.
**Clirio amserol:** Mae angen adnoddau/offer digonol ar swyddogion gorfodi i glirio gwastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon yn ystod y cam ymchwilio.

### 4.5 Dull Gorfodi

#### 4.5.1 Y Sefyllfa Bresennol

Ar hyn o bryd, yn Sir Gaerfyrddin, mae tipio anghyfreithlon yn cael ei ymchwilio lle mae tystiolaeth ar gael, mae hyn yn cynnwys tystiolaeth gan drigolion lleol a allai fod wedi bod yn dyst i'r digwyddiad. Mae gan Dîm Gorfodi'r Cyngor o 8 swyddog bwrpas amlweddog gan gynnwys mynd i'r afael â materion amgylcheddol, gan gynnwys baw cŵn, sbwriel, cerbydau wedi'u gadael, rheoli gwastraff masnachol ac erlyniadau ar gyfer achosion tipio anghyfreithlon lle ceir tystiolaeth. Mae pob Swyddog Gorfodi yn cael y sgiliau, yr hyfforddiant a'r wybodaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael â tipio anghyfreithlon yn effeithiol. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn annog rhanddeiliaid i adrodd am achosion o dipio anghyfreithlon ar y briffordd gyhoeddus a thir arall sy'n eiddo i'r cyngor ar-lein neu dros y ffôn.

Mae'r tîm i bob pwrpas yn delio â throseddau amgylcheddol, ac maent wedi cael ystod o bwerau deddfwriaethol sy'n eu galluogi i ddal ac atal y rhai sy'n gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon. Y prif ddarn o ddeddfwriaeth a ddefnyddir yn eang gan

y tîm yw, "Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990". Mae adrannau yn y Ddeddf yn caniatáu i'r tîm gorfodi dargedu a mynd i'r afael ag achosion fel a ganlyn:

| **Disgrifiad o'r Drosedd** | **Swm Uchaf Hysbysiad Cosb Benodedig** | **Cosb Uchaf ar ôl Collfarn** |
|---|---|---|
| Personau sy'n Gwaredu Gwastraff yn Anghyfreithlon (Tipio Anghyfreithlon) | £400 | Dirwy Ddiderfyn/Carcharu |
| Personau sy'n Cludo Gwastraff ac yn Methu â Dangos Dogfennau Gwastraff | £300 | Dirwy Ddiderfyn |
| Deiliaid Tai sy'n Methu â Chydymffurfio â Rheoliadau Dyletswydd Gofal | £300 | Ar Gollfarn Ddiannod - Dirwy Ddiderfyn |
| Personau sy'n Gollwng Sbwriel | £125 | £2500 |
| Personau sy'n Methu â Chydymffurfio â Hysbysiad Daliedydd Gwastraff | £100 | £1000 |

Mae pwerau ychwanegol wedi'u cynnwys yn Neddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989.

| **Disgrifiad o'r Drosedd** | **Uchafswm Hysbysiad Cosb Benodedig** | **Cosb Uchaf ar ôl Collfarn** |
|---|---|---|
| Personau sy'n Methu â Dangos Prawf o'r Awdurdod i Gludo Gwastraff | £300 | £5000 |

Yn sgil y Ddeddfwriaeth, gall y tîm gorfodi gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig fel ffordd i droseddwr ryddhau unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y drosedd. Fel canllaw ar sut mae swyddogion yn penderfynu ar y categori a'r canlyniad i'r troseddwr, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol.

- Hyd at faint un bag du – Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer Sbwriel = £125
- Rhwng un bag du ac wyth bag – Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer Tipio Anghyfreithlon = £400
- Dros wyth bag du = Erlyniad

Os oes unrhyw amgylchiadau lliniarol efallai y bydd angen dull gwahanol e.e: Cafodd y gwastraff ei ddosbarthu'n wastraff peryglus.

Os bydd busnes yn cael ei ddal yn tipio anghyfreithlon, nid oes modd rhoi hysbysiad cosb benodedig, a byddai'r mater yn destun achos llys.

Mae gan Dîm Gorfodi Materion Amgylcheddol Cyngor Sir Caerfyrddin amrywiaeth o systemau teledu cylch cyfyng sy'n cael eu defnyddio i atal a dal y rhai sy'n gwaredu neu'n tipio gwastraff yn anghyfreithlon mewn lleoliadau a elwir yn 'fannau problemus'. Gellir dosbarthu mannau problemus fel ardaloedd lle mae lefelau uchel o achosion o dipio anghyfreithlon.

Mae'r Tîm Gorfodi yn derbyn ceisiadau yn rheolaidd i roi teledu cylch cyfyng ar waith. Nid yw unrhyw deledu cylch cyfyng yn cael ei ystyried yn ateb i broblem ond mae'n cael ei ystyried yn 'offeryn defnyddiol' wrth leihau tipio anghyfreithlon.

### 4.5.2 Canfyddiadau

Nodwyd bod y cyfleuster ailgylchu yng Nghlwb Pêl-droed Carwe yn fan problemus ar gyfer tipio anghyfreithlon a'i fod yn digwydd yn rheolaidd. Defnyddiodd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn partneriaeth â Chlwb Pêl-droed Carwe system teledu cylch cyfyng er mwyn dal y troseddwyr gan ddarparu tystiolaeth addas tuag at erlyniad posibl.



Cafodd teledu cylch cyfyng ei ddefnyddio yn y lleoliad hwn ar ddau achlysur ar wahân – 15 Mawrth 2022 – 27 Mehefin 2022 a 4 Gorffennaf 2022 – 27 Hydref 2022. Dangosir llwyddiant y system teledu cylch cyfyng yn yr ystadegau:-

**Cyfanswm hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd = 36.**
Wedi'u talu = 29.
Erlyn yn syth = 1

**Erlyniadau.**
Gwrandawiadau llys = 3 yn euog.
Ffeiliau a gyflwynwyd i'r Adain Gyfreithiol cyn Treial = 2

**Canlyniad arall**
Rhybudd Ffurfiol = 1
Methiant i Erlyn = 1 (Y tu allan i Statud y Cyfyngiadau).

#### 4.5.3 Sylwadau

Mae'r dull presennol o orfodi naill ai'n rhybudd llafar, yn Hysbysiad Cosb Benodedig neu'n wŷs llys. Mae Aelodau'r Grŵp yn awyddus i ddatblygu dull lle gellid gweithredu camau cywiro ar gyfer troseddwyr tro cyntaf.

Roedd yn amlwg bod defnyddio teledu cylch cyfyng yng Ngharwe yn dangos manteision dull o'r fath, a chydnabuwyd y gallai gweithgarwch teledu cylch cyfyng cynyddol mewn ffordd gydgysylltiedig fod o fudd o ran lleihau tipio anghyfreithlon pellach mewn ardaloedd hysbys.

### 4.6 Rhanddeiliaid Allweddol, Ymgynghorwyr Arbenigol a Thystion

Er bod rheoli tipio anghyfreithlon yn golygu gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid allanol, gwahoddodd y grŵp yn ei gyfarfod 7 Chwefror 2023 y rhanddeiliaid canlynol i'r cyfarfod er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae tipio anghyfreithlon yn cael ei reoli y tu allan i'r Awdurdod ac i fesur lefel integreiddio ac effeithiolrwydd y dull presennol:-

- Cadeirydd, Clwb Pêl-droed Carwe;
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Heddlu Dyfed-Powys;
- Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau a oedd yn rhoi gwybodaeth werthfawr i lywio'r adroddiad hwn. Amlygodd y trafodaethau fod gan randdeiliaid ystod o ddulliau i ymateb i dipio anghyfreithlon a gweithio gydag eraill er mwyn atal ac addysgu am dipio anghyfreithlon.

Hoffai aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddiolch i randdeiliaid am eu cymorth ac am fod yn agored yn ystod yr ymchwiliad. Mae gwybodaeth berthnasol wedi helpu wrth lunio'r argymhellion i'r Cabinet.

### 4.6.1 Sylwadau

Roedd yr Aelodau'n cydnabod gwerth gweithio gyda phartneriaid mewn dull cydgysylltiedig ac yn teimlo y byddai'n fuddiol gwneud trefniadau cadarn i gydweithio wrth fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

## 5.0 CASGLIADAU

Ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei choladu, daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

Yn dilyn dadansoddiad o'r ymchwil a wnaed, ynghyd â'r wybodaeth a gasglwyd, daeth Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r casgliadau canlynol:-

1. Mae tipio anghyfreithlon boed hynny ar dir preifat neu gyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn cael effaith sylweddol ar drigolion, yr amgylchedd ac adnoddau'r cyngor;

2. Yn seiliedig ar y dystiolaeth gyffredinol, sylweddolodd yr Aelodau y gellid gwneud gwelliannau i gryfhau a gwella'r ffordd yr oedd yr awdurdod lleol yn rheoli tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin;

3. Wrth ganfod, er bod y dull presennol o reoli tipio anghyfreithlon yn ymatebol ac wedi'i bennu gan y galw, a bod gorfodi'n digwydd yn ôl yr angen, credai'r Aelodau'n gryf y byddai buddsoddi mewn dulliau ymgynghorol/addysg/atal yn gynaliadwy yn hytrach na pharhau i fuddsoddi mewn hyrwyddo gorfodi;

4. Roedd materion adrodd yn codi yn y ffaith nad oes diffiniad clir o dipio anghyfreithlon a strategaeth;

5. Roedd rheolaeth fewnol tipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus a thir preifat rhwng y ddwy adran sy'n rheoli tipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus a phreifat yn codi pryder. Teimlwyd y gellid symleiddio'r cysylltiad rhwng yr adrannau a'i gryfhau drwy ddull un tîm;

6. Roedd yr ymchwil mewn perthynas â darparu teledu cylch cyfyng yng Nghlwb Pêl-droed Carwe yn dystiolaeth glir o welliant amlwg yn atal tipio anghyfreithlon yn yr ardal. Teimlwyd, wrth nodi mannau problemus a gweithio mewn partneriaeth, y gellid efelychu hyn gan ddarparu ateb i'r ardal;

7. Penderfyniad/diffiniad ar fathau o wastraff sydd i'w glirio o dir preifat (gyda chaniatâd y tirfeddiannwr) gan gynnwys terfyn maint (Cyd-ddealltwriaeth gyda CNC =<20m3). Mae hyn yn cynnwys estheteg, cost, goblygiadau ar ganlyniadau (negeseuon anghywir i droseddwyr y gellir gollwng gwastraff a bydd yn cael ei glirio heb oblygiadau yn Sir Gaerfyrddin).

## 6.0 ARGYMHELLION

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi gwneud ymchwil helaeth ar y gwaith mewnol presennol o reoli tipio anghyfreithlon mewn perthynas â thir cyhoeddus a phreifat. Wrth ystyried canfyddiadau'r ymchwil a llunio'r casgliad cynigir bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion canlynol:

| **Argymhelliad Un**<br><br>Archwilio ymhellach y potensial o symleiddio rheolaeth bresennol y Cyngor o dipio anghyfreithlon drwy ddull 'un tîm' er mwyn cryfhau'r gwaith o reoli tipio anghyfreithlon rhwng y sectorau tir preifat a chyhoeddus. | |
|---|---|
| **Goblygiadau o ran cost**<br>Bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r adolygiad i'r opsiynau ac yn cael ei ystyried yn y dadansoddiad. | **Tymor Gweithredu**<br>Tymor Canolig |

| **Argymhelliad Dau**<br><br>Gwella'r broses o adrodd a chofnodi tipio anghyfreithlon ar hyn o bryd er mwyn sicrhau cyfleustra i drigolion a darparu casgliad cadarn a chywir o ddata. | |
|---|---|
| **Goblygiadau o ran cost**<br>Bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r adolygiad o'r opsiynau. | **Tymor Gweithredu**<br>Tymor Byr |

| **Argymhelliad Tri**<br><br>Adolygu a chryfhau'r Strategaeth Addysg, Atal a Chyfathrebu bresennol i gynnwys:-<br><br>i. datblygu Cynllun Gweithredu Cyfathrebu ac Ymgysylltu gan ystyried gwahanol fathau o dipio anghyfreithlon ar draws lleoliadau gwledig a threfol;<br><br>ii. Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar sail 'ysgafn' rheolaidd i sicrhau bod negeseuon yn parhau'n gyfredol.<br><br>iii. presenoldeb mwy gweladwy mewn sioeau/ffeiriau/Eisteddfodau. | |
|---|---|
| **Goblygiadau cost cysylltiedig**<br>Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, ar y cyd â'r Tîm Marchnata a'r Cyfryngau, bydd cynllun gweithredu wedi'i gostio'n cael ei ddatblygu a fydd yn cyd-fynd â'r dyraniad cyllideb cyfredol ar gyfer y gwasanaethau. | **Tymor Gweithredu**<br>Tymor Byr |

| **Argymhelliad Pedwar**<br><br>Datblygu dull cydgysylltiedig gyda phartneriaid gan gynnwys trefniadau cadarn i gydweithio i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. | |
|---|---|
| **Goblygiadau cost cysylltiedig**<br>Costau Adnoddau Staff CSC yn unig | **Tymor Gweithredu**<br>Tymor Byr |

| **Argymhelliad Pump**<br><br>Cynyddu'r defnydd o deledu cylch cyfyng cudd mewn mannau problemus a nodwyd. | |
|---|---|
| **Goblygiadau cost cysylltiedig**<br>Costau sy'n gysylltiedig â sefydlu teledu cylch cyfyng yn wreiddiol<br>Costau adnoddau parhaus a fyddai'n cael eu hadennill drwy erlyniadau llwyddiannus.<br>Y nod yw darparu dull system teledu cylch cyfyng sy'n gost niwtral. | **Tymor Gweithredu**<br>Tymor Canolig/Hir Dymor |

| **Argymhelliad Chwech**<br><br>Datblygu strategaeth Tipio Anghyfreithlon sy'n nodi'n glir ddull y Cyngor ar gyfer tipio anghyfreithlon.<br><br>Bydd yn cynnwys:<br><br>i. meini prawf o gamau unioni ar gyfer troseddwyr tipio anghyfreithlon am y tro cyntaf – disgresiwn Swyddog Gorfodi fesul achos<br><br>ii. clirio tipio anghyfreithlon yn ystod y cyfnod ymchwilio | |
|---|---|
| **Goblygiadau cost cysylltiedig**<br>Costau Adnoddau Staff CSC yn unig | **Tymor Gweithredu**<br>Tymor Canolig |

| **Argymhelliad saith**<br><br>Cyflwyno cyd-fforwm atal / gorfodi troseddau rheolaidd gyda Chynghorwyr, Swyddogion, partneriaid ac awdurdodau lleol cyfagos (rhannu arfer gorau) | |
|---|---|
| **Goblygiadau cost cysylltiedig**<br>Costau Adnoddau Staff CSC yn unig | **Tymor Gweithredu**<br>Tymor Canolig |

Er mwyn monitro'r cynnydd ar yr argymhellion, caiff cynllun gweithredu ei lunio a'i reoli trwy'r System Monitro Gwybodaeth Perfformiad fewnol. Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd.

Bydd deilliannau'r argymhellion yn cael eu hadrodd hefyd i'r Cabinet a'r Cyngor o fewn Adroddiad Monitro Perfformiad y Strategaeth Gorfforaethol.

## 7.0 ATODIADAU

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Data |
| Atodiad B | Proses o reoli tipio anghyfreithlon – Tir Preifat |
| Atodiad C | Proses o reoli tipio anghyfreithlon – Tir Cyhoeddus |
| Atodiad D | Asiantaeth yr Amgylchedd – Siart Llif Protocol Tipio Anghyfreithlon (Cymru) |

## 8.0 GEIRFA

- **Flymapper:**
Mae FlyMapper yn offeryn ar y we ar gyfer cofnodi achosion o dipio anghyfreithlon. Mae gan FlyMapper ddwy brif elfen - ap symudol i gofnodi lleoliad achosion ynghyd â llun, a gwefan lle gellir dadansoddi data yn fanylach. Datblygwyd FlyMapper fel offeryn ymarferwyr ar gyfer cofnodi a rheoli achosion o dipio anghyfreithlon sylweddol.

- **System TASK:**
Mae Atgyweiriadau Total yn system rheoli gwaith ac arian sy'n ein galluogi i gofnodi a rheoli'r holl weithgareddau o fewn ceisiadau am waith a dderbynnir i gynnwys amserlennu gwaith/gwaith cynlluniedig/dyraniad a gwariant yn erbyn pob gweithgaredd unigol neu grŵp. Gellir dadansoddi data i ddarparu gwybodaeth bresennol a hanesyddol, monitro a gwella perfformiad gwasanaeth.

- **System APP:**
Mae system Rheoli APP Civica yn ddatrysiad meddalwedd sy'n caniatáu i wasanaethau rheoleiddio gyda Sir Gaerfyrddin ddarparu gwasanaethau ymatebol, gyda rheoli achosion wrth ei gwraidd, rheolir pob tasg gwasanaethau rheoleiddio gan un llwyfan, mae'r system yn lleihau lefel y weinyddiaeth, yn hybu cynhyrchiant ac yn ei dro yn gwella ansawdd gwasanaeth, y broses awtomataidd i wella effeithlonrwydd, yn rheoli'r ymholiadau a dderbynnir am wasanaethau rheoleiddio yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.


- **Firmstep:**
Firmstep yw ein system Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid a ddefnyddir o fewn lleoliad y ganolfan gyswllt sy'n rheoli rhyngweithio â chwsmeriaid a rhyngwynebau gydag Atgyweiriadau Total i leihau gweinyddiaeth wrth ddarparu gwybodaeth am geisiadau gwasanaeth a ddyrannwyd i bob adran.

- **Fix my street:**
Mae FixMyStreet yn wefan ac yn ap sy'n seiliedig ar fap gan mySociety sy'n helpu pobl yn y Deyrnas Unedig i roi gwybod i'w hawdurdod lleol am broblemau sydd angen eu sylw, megis graffiti, baw cŵn, tyllau neu oleuadau stryd sydd wedi torri, ac ati. Mae adroddiadau a gyflwynwyd i FixMyStreet hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.


- **CCTV –** Teledu Cylch Cyfyng
- **CRM –** Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid
- **MoU** – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth
- **CNC** – Cyfoeth Naturiol Cymru
- **FPN –** Hysbysiadau Cosb Benodedig

**Atodiad A**


## Ceisiadau gwasanaeth wedi'u cofnodi dros y 5 mlynedd diwethaf (PP)





## Ceisiadau gwasanaeth wedi'u cofnodi dros y 5 mlynedd diwethaf (PP)




## Nifer y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â ceisiadau gwasanaeth gwastraff dros y 5 mlynedd diwethaf




## Cofnodion FlyMapper




## Nifer y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â ceisiadau gwasanaeth gwastraff dros y 5 mlynedd diwethaf

| | | | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wales | | | 36259 | 38614 | 35434 | 35076 | 33542 |
| Wales | North Wales | | 5730 | 5975 | 5764 | 5622 | 5035 |
| | North Wales | Isle of Anglesey | 1831 | 2010 | 1567 | 1712 | 1305 |
| | | Gwynedd | 645 | 624 | 461 | 323 | 633 |
| | | Conwy | 1078 | 1351 | 1540 | 1734 | 1162 |
| | | Denbighshire | 1120 | 1004 | 1207 | 665 | 700 |
| | | Flintshire | 898 | 800 | 774 | 1013 | 1067 |
| | | Wrexham | 158 | 186 | 215 | 175 | 168 |
| | Mid and South West Wales | | 10891 | 9214 | 8760 | 8836 | 8470 |
| | Mid and South West Wales | Powys | 1019 | 1013 | 1436 | 1225 | 494 |
| | | Ceredigion | 390 | 252 | 240 | 156 | 159 |
| | | Pembrokeshire | 1199 | 1521 | 1323 | 1159 | 852 |
| | | Carmarthenshire | 972 | 1732 | 2939 | 3516 | 4111 |
| | | Swansea | 6040 | 3646 | 1766 | 1450 | 1450 |
| | | Neath Port Talbot | 1271 | 1050 | 1056 | 1330 | 1404 |
| | South East Wales | | 19638 | 23425 | 20910 | 20618 | 20037 |
| | South East Wales | Bridgend | 1086 | 1283 | 1604 | 1937 | 1788 |
| | | Vale of Glamorgan | 532 | 612 | 324 | 357 | 371 |
| | | Rhondda Cynon Taff | 4023 | 4252 | 3349 | 3247 | 2946 |
| | | Merthyr Tydfil | 1682 | 1970 | 2273 | 2909 | 1850 |
| | | Caerphilly | 2359 | 1992 | 1773 | 1949 | 2214 |
| | | Blaenau Gwent | 723 | 845 | 955 | 1167 | 1327 |
| | | Torfaen | 905 | 794 | 696 | 836 | 866 |
| | | Monmouthshire | 303 | 414 | 420 | 300 | 572 |
| | | Newport | 1811 | 3270 | 3588 | 2697 | 2725 |
| | | Cardiff | 6214 | 7993 | 5928 | 5219 | 5378 |


**Atodiad B**

## Map prosesau - Tipio anghyfreithlon ar dir preifat



**Atodiad C**

# Map prosesau - Tipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus



**Atodiad D**

# enforcement

Environment Agency

Environment Officer – quick guide

## Flytipping protocol flow chart (Wales)

This document does not replace the flytipping protocol but can be used to determine the appropriate response.

**Reports of flytipping on public or private land**

A **bin bag or several bin bags** of household or commercial waste → Pass to the **local authority** to investigate and arrange for the removal and disposal of the waste.

A pile of waste about the size of a **large car boot** (up to 0.5 m³) → Pass to the **local authority** to investigate and arrange for the removal and disposal of the waste.

A pile of waste about the size of a **van** or up to 7.5 tonne **tipper truck** (0.5 to 10 m³)

A pile of waste from a **single large tipper truck** (20 m³ / approximately 18 tonnes)

**Bonded asbestos**

**< 5 m³ fibrous asbestos**

**Clinical waste**

→ Pass to the **local authority** to investigate and arrange for the removal and disposal of the waste.

Where agreed locally the **Environment Agency Wales** may carry out the investigation and enforcement where a frequently repeated offence or organised crime is suspected.

The **Environment Agency Wales** will only arrange removal where there is no adequate response from a responsible party and there is actual or imminent threat to the environment, human health or flooding. Where asbestos is present, consider notifying the HSE.

Where cross boundary transport results in organised flytipping or keeping of clinical waste **Environment Agency Wales** will carry out investigation and enforcement.

A pile of waste from **several large tipper trucks** (each > 20 m³, approximately 18 tonnes) → If reported to the **Environment Agency Wales** we will usually carry out investigation and enforcement action, except where the **local authority** wishes to take on the work.

**> 5 m³ fibrous asbestos** → **Environment Agency Wales** will usually investigate and take enforcement action.

**Environment Agency Wales** will only arrange removal where there is no adequate response from a responsible party and there is actual or imminent threat to the environment, human health. Where asbestos is present, consider notifying the HSE.

**Author:** EO Focus Team
**Document owner:** Claire Winlow
**Doc no:** 536_06

**Issue date:** February 2008
**Review by:** May 2009
**Version:** 2

## Flytipping protocol flow chart (Wales)

**Drums/containers > 25 litres in total of potentially hazardous waste** → **Environment Agency Wales** are responsible for removal and disposal of all drums on public beaches and drummed chemical waste (including oil) empty or full flytipped near watercourses or occupied buildings. **Environment Agency Wales** will investigate flytipped drums at other locations and will remove where the polluter cannot be identified or refuses to remove it. If on public land notify the **local authority**.

**Tyres** → **Environment Agency Wales** will investigate where flytipped within 10m of a watercourse. Where there is actual or imminent risk of pollution, harm to human health, and/or the waste would constitute a potential flood risk to main river, then **Environment Agency Wales** would consider removing. Otherwise refer to the **local authority**.

Where tyres are flytipped or kept in quantities on land greater than 50m³ **Environment Agency Wales** will investigate and enforce. **Environment Agency Wales** will also consider removing where risk of serious pollution is considered to be high.

Reports of **flytipping** and **waste** (including animal carcass) **dumped** in **water** or into **tidal foreshore**

**Amenity issues only** (ordinary watercourse and main river)

**Significant flood risk** on an **ordinary watercourse**

Risk of **pollution to non-controlled water** (that is pond with no connections)

→ Pass to the **local authority** to investigate and arrange for removal and disposal of the waste.

Where agreed locally the **Environment Agency Wales** may carry out enforcement where it is a frequently repeated offence or organised crime is suspected.

**Significant flood risk on main river or critical ordinary watercourse**

**Risk of pollution to controlled waters** (rivers, lakes)

→ **Environment Agency Wales** will remove.

**Environment Agency Wales** may carry out investigation and enforcement action.

Reports of **illegal waste sites** – landfills, transfer stations, treatment sites

If reported to the local authority they will:

- inform the Environment Agency and their planning department/authority
- agree with us the best approach to enforcement
- put onto Flycapture for removal and enforcement action where incident is passed back to the local authority.

If reported to the Environment Agency we will:

- carry out appropriate investigation
- inform the local authority
- agree the best approach to enforcement with them and the planning authority
- include on NIRS if we take the lead in investigation and enforcement.